

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

LLYFRAUaRHAGOR
BOOKS&BEYOND
LlyfrgellacAdnoddauDysgu | Library&LearningResources


# Cyhoeddi Mynediad Agored

## Adneuwch eich set ddata


1. Mewngofnodwch trwy ddefnyddio’ch manylion mewngofnodi a’ch chyfrinair yn Y Drindod Dewi Sant



# 2. Cliciwch ar **Rheoli Adneuon**




Cliciwch ar **Rheoli Adneuon** ac wedyn **Set ddata newydd.**





Gwnewch yn siŵr bod eich data wedi'u paratoi ar gyfer eu rhannu. Dilynwch ein [canllawiau am gymorth ]ar:

- Benderfynu pa ddata i'w cadw
- Golygu setiau data neu eu gwneud yn ddienw ar gyfer eu cadw
- Dewis fformat ffeil cynaliadwy
- Disgrifio a dogfennu eich data

Dewiswch a llwythwch eich ffeil yn y fformat perthnasol, e.e. Taenlen Excel.
**Os yw'ch set ddata yn fwy nag 1GB, cysylltwch ag openaccess@uwtsd.ac.uk am gyngor pellach.**

Unwaith y byddwch wedi Lanlwytho eich dogfen ehangwch y tab **Dangos opsiynau** a llenwi'r manylion allbwn, fel y nodir isod.

# 3. Neilltuwch drwydded a dyddiad embargo.




Dewiswch 'Staff y Gadwrfa yn unig' pan fydd embargo ar eich allbwn. Bydd eich gwaith yn newid ar unwaith i fod ar gael i'r cyhoedd cyn gynted ag y bydd cyfnod yr embargo wedi dod i ben.

Dewiswch gynnwys y ddogfen.


Rhowch y dyddiad y bydd unrhyw gyfnod embargo yn dod i ben. Os yw'ch ymchwil wedi'i gyllido, mae'n bwysig sicrhau eich bod yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion polisi data ymchwil gan eich corff cyllido: [Gofynion Cyllidwyr]

Er bod mod di chi ddefnyddio [Open Policy Finder] i wirio'r cytundeb hawlfraint gan eich cyhoeddwr, dylech hefyd wirio gyda'ch golygydd. Bydd y Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu hefyd yn gwirio hyn cyn trefnu bod yr allbwn ar gael i'r cyhoedd. Os bydd amheuaeth, cysylltwch â: openaccess@uwtsd.ac.uk
Os yw eich ymchwil wedi ei ariannu, fel arfer bydd angen i chi ddewis **Creative Commons: Attribution 4.0**. Mewn rhai achosion mae **Creative Commons: Attribution-Non-commercial 4.0** yn dderbyniol. Gwiriwch delerau eich grant neu siaradwch â'ch swyddog ymchwil.

Ar gyfer ymchwil nad yw wedi ei ariannu mae croeso i chi ddefnyddio trwydded **Creative Commons: Attribution-Non-commercial –No derivative works 4.0**. Os dymunwch ddefnyddio trwydded wahanol, mynnwch air â'ch swyddog ymchwil.

Trwyddedau Creative Commons

# 4. Ychwanegwch y manylion a'r metaddata ar gyfer eich set ddata.





Ychwanegwch deitl y set ddata.

Cynhwyswch grynodeb o'r cynnwys.

Ychwanegwch allweddeiriau ynghylch pwnc eich cyflwyniad. Gall staff yr ystorfa ddiwygio'r rhain i helpu i ddarganfod eich gwaith.

Dylai eich Athrofa ymddangos yma. Sgroliwch i lawr i ddewis y categori cywir.




Rhowch eich rhif ORCID yn y golofn ORCID: sylwer bod hwn yn wahanol i'ch rhif staff y Brifysgol neu eich manylion mewngofnodi TG. Bydd angen i chi gofrestru I gael ID ORCID os nad oes gennych un [http://orcid.org/](http://orcid.org/).


Darpara ORCID ddynodydd digidol parhaus sy'n eich gwahaniaethu chi oddi wrth bob ymchwilydd arall a thrwy eich integreiddio mewn llifoedd gwaith ymchwil allweddol megis cyflwyno llawysgrif a grantiau, cefnogi cysylltiadau automatig rhyngoch chi a'ch gweithgareddau proffesiynol, gan sicrhau y caiff eich gwaith ei gydnabod.Gallwch chi gysylltu eich cyfrif ORCID i'r gadwrfa hefyd, gweler y cyfarwyddiadau yma.

Defnyddiwch eich enwau llawn yn hytrach na llythrennau cyntaf i gynorthwyo mynegeio a darganfod eich gwaith. Ychwanegwch eich cyfeiriad e-bost PCYDDS i'r maes rhif adnabod hefyd.

Ychwanegwch y DOI os yw ar gael.
Efallai y byddwn hefyd yn gallu creu DOI i chi os oes angen, cysylltwch ag openaccess@uwtsd.ac.uk am ragor o wybodaeth.

Nodwch y math o ddata, e.e. recordiad, dadansoddiad, ac ati.

Os yw'n berthnasol, ychwanegwch unrhyw gyfranwyr ychwanegol y mae angen i chi eu credydu yma, er enghraifft ymchwilwyr ychwanegol na wnaeth gyfrannu at y papur terfynol, neu gyllidwyr sydd wedi gofyn am achrediad.




Cwblhewch fanylion y Cyllidwr fel y bo'n briodol. Os nad yw eich gwaith wedi'i ariannu, gadewch hwn yn wag.

Rhowch fanylion y Prosiect fel y bo'n briodol.


Ychwanegwch ddyddiadau'r cyfnod y casglwyd y data.

Nodwch y cwmpas daearyddol a'r lleoliad fel y bo'n berthnasol.

Disgrifiwch y fethodoleg a ddefnyddiwyd i greu eich casgliad data, gan gynnwys gwybodaeth am y boblogaeth a astudiwyd, endidau a astudiwyd a gweithdrefnau samplu.

Rhowch ddisgrifiad o unrhyw faterion cyfreithiol, moesegol a wynebwyd wrth gynhyrchu'r data, a sut y deliwyd â'r rhain er mwyn caniatáu rhannu, gan gynnwys cyfyngiadau mynediad oedd ar waith.

Ychwanegwch unrhyw weithgareddau prosesu a pharatoi data.





Nodwch iaith unrhyw ddeunydd ysgrifenedig yn y set ddata ac iaith y metadata yn y cofnod.

Ychwanegwch ddolen i gyhoeddiadau sy'n gysylltiedig â'r set ddata hon. Gellir defnyddio'r maes teitl i chwilio am gyhoeddiadau yng nghadwrfa PCYDDS.

Cynhwyswch unrhyw ddolenni i unrhyw adnoddau neu gyhoeddiadau allanol sy'n ymwneud â'r set ddata hon.

Os yw'n berthnasol, rhowch fanylion y cyhoeddiad gwreiddiol, gan gynnwys yr URL.





Rhowch fanylion y deiliad/deiliaid hawlfraint.

Cynhwyswch gyfeiriad e-bost cyswllt.

Os yw'n berthnasol, ychwanegwch fanylion unrhyw wybodaeth ynglŷn â chadw’r data.

# 5. Dyddodwch eich eitem





**PWYSIG**

Cliciwch ar **Adneuo'r item nawr** pan fyddwch yn hapus gyda'ch cyflwyniad. Os na wnewch chi hyn, ni chaiff eich gwaith ei anfon at staff yr ystorfa ar gyfer cyhoeddiad mynediad agored. **Wedi gwneud!**

Cewch chi hefyd gadw i ddychwelyd maes law **(Ei chadw tan hwyrach)** os dymunwch olygu'r eitem ymhellach cyn ei chyflwyno i'w chyhoeddi.

# 6. Gwiriwch a dyddodwch i'w adolygu a'i gyhoeddi



## Golygu'r Eitem - Staff y Gadwrfa yn Unig: Test Dataset

This item is still in your work area. It will not appear in the repository until you deposit it.

Adneuo'r eitem

Rhagolwg | Manylion | Gweithredoedd | Hanes | Dyblygu | Materion | rioxx

Lanlwytho — Golygu'r eitem

**Document: Taenlen** — **Math:** Taenlen. **Iaith:** Saesneg. **Yn weladwy i:** Unrhywun. **Trwydded:** Creative Commons CC-BY-NC: Attribution-Noncommercial 4.0.
- Williams, N (2025) Test dataset.xlsx

**Unspecified fields:** Hidden Documents

Details — Golygu'r eitem

**Crewyr:**

| Crewyr | E-bost | ORCID | ORCID Put Code |
|---|---|---|---|
| Williams, Natalie | natalie.williams@uwtsd.ac.uk | UNSPECIFIED | UNSPECIFIED |

**Teitl:** Test Dataset
**Statws:** Heb ei Gyhoeddi
**Adran:** Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu
**Allweddeiriau Rhydd:** Education, Artificial Intelligence
**Crynodeb:** Data collected for test project.
**Dyddiad:** 12 Ionawr 2026
**Cyhoeddwr:** University of Wales Trinity Saint David
**Prosiectau:** UWTSD
**Type of Data:** Transcripts
**Copyright Holders:** UWTSD
**Cyllidwyr:**

| Enw'r cyllidwr | Rhif adnabod y cyllidwr |
|---|---|
| University of Wales Trinity Saint David | https://doi.org/10.13039/100010038 |

**Resource language:** English
**Metadata language:** English


Mae eich allbwn wedi ei gyflwyno'n llwyddiannus. Cewch chi adolygu'r wybodaeth yma.

Bydd y Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu yn adolygu eich dyddodiad ac yn trefnu bod y testun llawn ar gael i bawb ar ddiwedd y cyfnod embargo.

Os bydd problem gyda'r diwygiad cewch wybod trwy e-bost.

**Diolch am ddefnyddio'r Ystorfa Mynediad Agored!**

# 7. Adfer y cyflwyniadau rydych chi wedi eu cadw




I adolygu cyflwyniadau blaenorol, pan fyddwch wedi eich mewngofnodi ar yr ystorfa cliciwch ar **Manage Deposits** ar y ddewislen.

Bydd yr eitemau sydd heb eu cyflwyno yn ymddangos mewn melyn a bydd angen i chi eu cwblhau cyn iddynt fynd yn fyw yn yr ystorfa. Bydd eitemau sydd wedi eu cyflwyno ac sy'n cael eu hadolygu yn ymddangos mewn llwyd. Amlygir yr eitemau sy'n fyw yn yr ystorfa mewn gwyrdd .

Dileu'r eitem

Golygu'r eitem

Dyddodi'r eitem